Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Penygroes
# Waterloo Road
# Penygroes
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA14 7NT

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/03/2017**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Penygroes ym mhentref Penygroes, Sir Gaerfyrddin.

Mae 182 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Maent wedi'u trefnu'n saith dosbarth un oedran. Gall rieni gofrestru eu disgyblion oed derbyn i'r ysgol dair gwaith y flwyddyn ar gychwyn bob tymor. Mae'r ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Daw tua 30% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae tua 10% o'r disgyblion yn deilwng i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sy'n sylweddol is na chyfartaleddau Cymru. Mae oddeutu 14% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae'r pennaeth yn ei swydd ar gytundeb parhaol ers Medi 2016. Bu'n gweithredu fel pennaeth dros dro ers Medi 2014. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Nhachwedd 2009.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Penygroes yn 2015-2016 yn £3,223 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,689 a'r lleiafswm yw £3,083. Mae Ysgol Gynradd Penygroes yn safle 91 o'r 100 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn teimlo'n bryderus
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o'u rôl yn y gymuned leol
- yr ysgol yn darparu ystod amrywiol o brofiadau dysgu effeithiol sy'n bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus
- ansawdd yr adysgu yn lled gadarn ar draws yr ysgol
- perthynas waith ofalgar yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir i sicrhau gwelliant parhaus sy'n cael ei rhannu'n llwyddiannus gyda'r staff a'r llywodraethwyr
- gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella
- gan yr ysgol drefniadau trylwyr i arfarnu ei heffeithiolrwydd
- cyswllt agos rhwng canfyddiadau'r broses hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu
- yr ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau sydd yn cyfrannu'n effeithiol at wella safonau a lles y disgyblion
- yr athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n llwyddiannus i gefnogi'r disgyblion
- yr ysgol yn cynnig gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Gwella medrau darllen y disgyblion

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddefnyddio eu medrau rhif i'r un safon ar draws meysydd eraill o'r cwricwlwm

A3 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer diwallu gofynion y Cwricwlwm Cymreig

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion yn isel o ystyried eu hoed. Er hyn, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n fuan ac, erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r medrau ganddynt i siarad yn gynyddol gywir a hyderus. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau gan athrawon a gall y mwyafrif ar frig cyfnod allweddol 2 gynnal sgyrsiau estynedig. Mae'r rhan fwyaf yn barod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth yn hyderus.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol ac yn unol â'u galluoedd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif ohonynt yn gallu darllen yn fwyfwy rhugl ac yn ailadrodd storïau'n hyderus. Fodd bynnag, dim ond ychydig o'r disgyblion sy'n trafod eu llyfrau yn synhwyrol ac yn meddu ar wybodaeth gynyddol am wahanol fathau o lyfrau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn gywir, gyda dealltwriaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn trafod y prif ddigwyddiadau a chymeriadau o'u llyfrau darllen yn bwrpasol. Fodd bynnag, lleiafrif o'r disgyblion sy'n trafod amrywiol destunau ac yn ateb cwestiynau'n effeithiol ynglŷn â'r llyfrau maent yn eu darllen. Prin yw ei gwybodaeth am ystod o lyfrau ac awduron gwahanol yn y ddwy iaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio uwch fedrau darllen yn bwrpasol i ddarganfod gwybodaeth i gefnogi eu gwaith dosbarth, er enghraifft wrth ymchwilio i wahanol wrthrychau sy'n hedfan. Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau cip ddarllen a llithr ddarllen testunau yn effeithiol er mwyn dod o hyd i wybodaeth yn gyflym.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn ffurfio llythrennau yn gywir ac yn ysgrifennu brawddegau syml i gyfleu ystyr, er enghraifft wrth iddynt gofnodi stori 'Sioni Rhew'. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n ddiddorol mewn ystod gynyddol o ffurfiau ysgrifennu. Maent yn ysgrifennu brawddegau synhwyrol gan atalnodi'n gywir. Wrth i'r disgyblion mwy abl ysgrifennu dyddiadur am brofiadau merch yn gweithio mewn pwll glo, maent yn dechrau amrywio brawddegau yn grefftus er mwyn cynnal diddordeb y darllenydd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn dda yn y ddwy iaith. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn ysgrifennu'n ddychmygus mewn amrywiaeth o ffurfiau ysgrifennu, gan ddatblygu eu syniadau'n ddiddorol. Gallent drosglwyddo'u medrau yn effeithiol wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu barddoniaeth synhwyrau i gyfleu teimladau faciwî. Ar

draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn briodol gyda llawysgrifen bwrpasol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso'u medrau rhifedd yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, er enghraifft wrth brynu a gwerthu nwyddau mewn swyddfa bost. Mae'r rhan fwyaf yn darllen problemau ysgrifenedig heriol gan gasglu a chofnodi'r data ar ffurf graff bar yn gywir. Mae llawer yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn hyderus mewn gwaith ymchwiliol, er enghraifft wrth gynnal ymchwiliad i batrymau rangoli.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi mathemateg yn gadarn. Maent yn defnyddio amrywiaeth briodol o strategaethau i ddatrys problemau rhif. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dadansoddi data, yn ymdrin â ffracsiynau a chanrannau, yn ogystal â mesur perimedr ac arwynebedd, yn gywir. Mae'r disgyblion mwy abl yn rhesymu eu hatebion yn aeddfed gan ragfynegi atebion cyn eu gwirio. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd i'r un safon ar draws holl feysydd eraill y cwricwlwm.

Mae disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau'n addas er mwyn cyflwyno gwybodaeth. Maent yn hyderus wrth osod lluniau, testun a symbolau yn eu gwaith gan wneud newidiadau yn ôl y gofyn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn hyderus wrth reoli tegan er mwyn dilyn llwybr penodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn, er enghraifft wrth iddynt gasglu a chyflwyno bas data i ddangos canlyniadau ymchwil bwystfilod bychain ar ffurf tabl a graff. Mae rhan fwyaf yn llwyddo i greu cyweithiau animeiddio'n bwrpasol i dangos taith awyren bapur. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o daenlenni syml er mwyn trefnu data, er enghraifft ar gyfer cofnodi cyfanswm archebion ffrwyth fel rhan o brosiectau mentergarwch y disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth eang a chadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

Yn gyffredinol, nid oes patrwm arwyddocaol rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o gymharu â'u cyfoedion dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gymharol â'u cyfoedion ar gyfer y lefel ddisgwyliedig ond yn is ar gyfer y lefel uwch ym mhob un o'r pynciau craidd.

Yn gyffredinol, mae merched yn cyflawni'n well na'r bechgyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 ar y deilliannau a'r lefelau disgwyliedig ac uwch. Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion ar y deilliant disgwyliedig ac uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi gosod yr ysgol gan amlaf yn uwch na'r canolrif o'i gymharu ag ysgolion tebyg.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Saesneg, Cymraeg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 50% uwch neu'r 25% isaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol mewn mathemateg yn gosod yr ysgol yn 50% is o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r perfformiad ar y lefelau uwch yn gosod yr ysgol yn uwch na'r canolrif mewn Saesneg a Chymraeg. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn llai cyson dros yr un cyfnod o'i gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles: Da**

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn teimlo'n bryderus. Mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth effeithiol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac o wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o ddiogelwch y we.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio ag eraill yn llwyddiannus ac yn dangos diddordeb brwd yn eu gwaith. Maent yn datblygu medrau i wella eu gwaith eu hunain yn llwyddiannus ac yn ymateb yn rheolaidd i sylwadau'r athrawon. Mae ymddygiad bron bob un disgybl yn arbennig o dda yn ystod gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn ymgymryd â chyfrifoldebau'n aeddfed ac maent yn cyflawni eu rôl yn dda. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn casglu barnau disgyblion eraill yn rheolaidd ac yn gweithredu ar y canfyddiadau. Yn ddiweddar, maent wedi gwneud penderfyniadau gwerthfawr am weithdrefnau gwrth-fwlio'r ysgol ac, yng nghyd a'r 'Llysgenhadon Efydd', am weithgareddau corfforol yn ystod amser egwyl. Mae grwpiau o ddysgwyr eraill, fel yr arweinwyr digidol, yn cefnogi medrau TGCh disgyblion ar draws yr ysgol yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth effeithiol o fentergarwch drwy gynnal stondinau yn y ffair ysgol a thrwy redeg y siop ffrwythau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o'u rôl yn y gymuned leol. Maent yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i berfformio mewn nifer o gyngherddau ac yn ymweld â busnesau lleol. Mae'r cyfleoedd hyn yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'n aelodau cyflawn a chyfrifol o'u cymuned.

Er bod cyfraddau presenoldeb wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae'r cyfartaledd presennol o'u cymharu ag ysgolion tebyg yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod amrywiol o brofiadau dysgu effeithiol sy'n bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cyflawni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn cyd-gynllunio gweithgareddau ysgogol trwy ddarparu themâu diddorol i fodloni anghenion y disgyblion i gyd. Er enghraifft,

mae ymweliad preswyl i ganolfan awyr agored ym Mhentywwyn yn sbarduno diddordeb a hybu dealltwriaeth y disgyblion hŷn am yr amgylchfyd lleol yn llwyddiannus.

Mae'r athrawon yn cynllunio themâu cyfoes ac yn sicrhau bod dilyniant effeithiol yn bodoli o ddysgu blaenorol y disgyblion. Mae'r ysgol yn ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gadarn. Mae ystod eang o gyfleoedd da i'r disgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd, meddwl a TGCh ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymhwyso eu medrau rhifedd i'r un safon yn llai cyson. Mae gan yr ysgol raglenni ymyrraeth llythrennedd effeithiol sy'n cefnogi disgyblion yn llwyddiannus.

Mae safon y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn effeithiol. Mae staff yn creu ethos Cymreig cadarnhaol ac yn hyrwyddo'r iaith yn gyson. Mae hyn yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd rhan fwyaf y disgyblion tuag at yr iaith. Fodd bynnag, mae'r gweithgareddau thematig i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion am draddodiadau Cymru a'u hetifeddiaeth yn llai effeithiol.

Mae gweithgareddau'r cyngor eco a'r clwb eco yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o gynaliadwyedd. Darparir cyfleoedd gwerthfawr ac amrywiol i'r disgyblion gefnogi elusennau a helpu'r rheini sy'n llai ffodus na nhw. Mae'r cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn addas.

## Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn lled gadarn ar draws yr ysgol. Nodwedd gref yw'r berthynas waith ofalgar sydd yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o gynorthwywyr dysgu i gefnogi'r dysgu. Mae'r holl athrawon yn creu awyrgylch dysgu ysgogol sy'n galluogi disgyblion i ddysgu'n llwyddiannus.

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda, ac yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu amrywiol sy'n ennyn brwdfrydedd ac yn cynnal diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Maent yn holi'n dreiddgar er mwyn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion a'u medrau meddwl yn dda. Mewn ychydig o sesiynau, nid yw'r gweithgareddau dysgu yn herio disgyblion o allu uwch yn ddigonol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn galluogi athrawon i osod targedau ar gyfer gwella ac adnabod unrhyw dangyflawniad yn gynnar. Mae'r disgyblion yn asesu eu dysgu eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac, ar y cyfan, mae'r sylwadau'n helpu disgyblion i wella eu gwaith.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi gwybodaeth briodol iddynt am gynnydd a chyflawniad eu disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar. Mae'r naws deuluol yn cael effaith gadarnhaol ar les, ymddygiad ac agwedd disgyblion tuag at ddysgu. Trwy brofiadau

amrywiol effeithiol, gweithgareddau corfforol yn ystod yr awr ginio a’r clwb brecwast, caiff disgyblion amrywiaeth o gyfleoedd i gynyddu eu lefelau iechyd a ffitrwydd. Mae’r ysgol yn gwneud trefniadau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae’r staff yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn llwyddiannus drwy wasanaethau cyd-addoli rheolaidd a gweithgareddau’r cwricwlwm. Mae ymweliadau â chlwb hanes y pentref yn cryfhau gwybodaeth y disgyblion o ddiwylliant lleol yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol gyswllt effeithiol gyda nifer o asiantaethau allanol, fel seicolegydd addysg ac athrawon arbenigol, sy’n galluogi’r ysgol i gynnig darpariaeth bwrpasol ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig penodol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr i adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar. Mae’n cynnig cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion sydd angen cymorth penodol drwy grwpiau ymyrraeth i wella, er enghraifft medrau llythrennedd a chymdeithasol rhai disgyblion. Mae cynlluniau addysg unigol y disgyblion yn nodi targedau priodol iddynt ac adolygir y cynlluniau yn rheolaidd, gan gynnwys y rhieni yn y broses. Mae rhaglenni ymyrraeth a chymorth pwrpasol yn diwallu anghenion y disgyblion hyn yn effeithiol.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chyfeillgar lle mae’r disgyblion yn cael eu trin yn gyfartal. Mae’r holl staff yn annog ymddygiad da’r disgyblion yn effeithiol, yn seiliedig ar werthoedd sy’n hyrwyddo parch a gofal. Mae'r ysgol yn cynnig mynediad cyfartal i'r cwricwlwm ac i weithgareddau allgyrsiol i bob disgybl.

Mae cyflenwad da o adnoddau ar gyfer cyflwyno gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm, sy’n cynnwys nifer o gyfrifiaduron a llechi amrywiol, a gwneir defnydd llawn o’r adnoddau perthnasol. Mae’r ystafelloedd dosbarth a’r waliau o gwmpas yr ysgol yn lliwgar a deniadol ac yn cynnwys amrywiaeth o arddangosfeydd sy’n dathlu llwyddiannau’r disgyblion. Mae’r gofod dysgu o fewn yr adeilad yn cyfrannu’n effeithiol tuag at fodloni anghenion y disgyblion i gyd.

Lleolir yr ysgol ar safle braf a gwneir defnydd effeithiol o’r holl safle. Mae’r ardal allanol yn adnodd gwerthfawr sy’n darparu amgylchedd ysgogol ac amrywiol i gyfoethogi dysgu’r disgyblion. Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd arbennig i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ehangu eu medrau ieithyddol a chreadigol. Mae’r holl amgylchedd yn annog y disgyblion i gadw’n iach a gwerthfawrogi’r amgylchedd o’u cwmpas.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir i sicrhau gwelliant parhaus sy'n cael ei rhannu'n llwyddiannus gyda'r staff a'r llywodraethwyr. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cefnogi'r pennaeth yn dda. Mae'r athrawon yn ymroddedig ac maent yn cydweithio'n agos â'i gilydd i greu ethos cartrefol ar gyfer y disgyblion. Mae gwaith tîm yn nodwedd amlwg ac mae pawb yn cydweithio'n effeithiol i godi safonau a sicrhau lles disgyblion.

Mae'r cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n effeithiol ar godi safonau cyrhaeddiad y disgyblion, gosod targedau a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae prosesau rheoli perfformiad yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol y staff yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael yn dda â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi eu sefydlu'n gadarn ac mae'r strategaethau asesu ar gyfer dysgu effeithiol yn sicrhau bod y disgyblion yn deall sut i wella eu gwaith yn dda. Mae gan yr ysgol drefniadau penodol ac effeithiol i wella lles a chyflawniad ei disgyblion mwy bregus.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella drwy ymweliadau rheolaidd i arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau. Maent yn ymwybodol o'r materion sydd angen sylw wrth ddadansoddi data ac yn gwybod sut mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau trylwyr i arfarnu ei heffeithiolrwydd. Mae'r trefniadau yn cynnwys rhaglen fonitro gynhwysfawr sydd yn sicrhau bod pob agwedd o waith yr ysgol yn cael ei gwerthuso yn amserol. Mae'r athrawon yn cyfrannu'n effeithiol at y broses trwy ddadansoddi data, craffu ar waith y disgyblion ac arsylwi gwersi.

Mae'r ysgol yn ystyried barnau'r staff, y llywodraethwyr, y rheini a'r disgyblion gan ymateb yn briodol iddynt. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae'r ysgol wedi gwrando ar farn y rhieni a newid y trefniadau iddynt gasglu eu disgyblion ar ddiwedd dydd. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddarlun gonest a chytbwys o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

Mae cyswllt agos rhwng canfyddiadau'r broses hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n dda ar godi safonau cyrhaeddiad y disgyblion. Mae gan yr athrawon a'r llywodraethwyr rolau pendant wrth greu, gweithredu a monitro'r cynllun o fewn terfynau amser realistig. Mae'n cynnwys nifer hylaw o flaenoriaethau, targedau mesuradwy a symiau penodol o gyllid. Caiff y cynllun ei fonitro'n effeithiol gan y pennaeth a'r staff, ac mae hyn yn sicrhau cynnydd da yn erbyn y blaenoriaethau. Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â blaenoriaethau cynllun datblygu'r llynedd yn llwyddiannus, gan gynnwys gwella safonau cyrhaeddiad Cymraeg a Saesneg y disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus mewn ystod o bartneriaethau sydd yn cyfrannu’n effeithiol at wella safonau a lles y disgyblion.

Mae’r berthynas â rhieni yn dda iawn. Mae’r ysgol yn cyfathrebu’n effeithiol gyda rhieni drwy negesuon testun, y wefan a’r cylchgrawn deniadol, cynhwysfawr, sef “Llais y Plant.” Mae’r gymdeithas rhieni yn codi symiau sylweddol o arian yn flynyddol i gyfoethogi’r darpariaeth ar gyfer y disgblion. Un enghraifft nodweddiadol yw’r gwelliannau i’r ardal allanol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae’r ardal bellach yn ddeniadol ac yn ysgogi’r addysgu a’r dysgu yn llwyddiannus iawn.

Gwneir defnydd da o’r gymuned leol. Mae’r disgyblion yn ymweld â’r siopau a busnesau cyfagos, ac yn cynnal gwasanaethau yn y capel a chyngherddau yn neuadd y pentref. Mae trigolion yr ardal yn ymweld â’r ysgol yn achlysurol i sôn am eu profiadau, er enghraifft ymweliad gan ifaciwî a ymgartrefodd yn y pentref yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae’r profiadau hyn yn cyfrannu’n dda at ehangu gwybodaeth y disgyblion a chodi eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd byw mewn cymuned.

Mae’r trefniadau pontio gyda’r ysgolion uwchradd a’r cylch meithrin yn fuddiol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn trosglwyddo’n hyderus i’r cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae’r trefniadau ar gyfer safoni a chymedroli gwaith o fewn y clwstwr yn sicrhau cysondeb a chywirdeb yn asesiadau’r athrawon. Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol gydag amryw o asiantaethau arbenigol sydd yn sicrhau cefnogaeth dda i ddisgyblion bregus a’u teuluoedd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff profiadol â chymwysterau addas i addysgu pob agwedd o’r cwricwlwm. Mae’r athrawon a’r cymorthyddion yn cydweithio’n llwyddiannus i gefnogi’r disgyblion. Mae’r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu'r athrawon yn addas. Gwneir defnydd da o arbenigedd cymhorthydd yn ystod y cyfnodau hyn i addysgu agweddau penodol, megis chwaraeon a sesiynau hyrwyddo lles y disgyblion.

Mae’r trefniadau rheoli perfformiad yn arwain yn llwyddiannus at sicrhau cyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff a chwrdd â blaenoriaethau gwella’r ysgol. Yn ddiweddar, mae’r cyfleoedd hyn wedi arwain at wella medrau ysgrifennu’r disgyblion ar draws yr ysgol.

Gwneir defnydd da o arian grantiau er mwyn gwella medrau’r athrawon a rhannu arfer dda. Er enghraifft, eleni, mae’r ysgol yn cydweithio ag ysgolion y clwstwr a’r ysgol uwchradd ar brosiect gwyddoniaeth ar gyfer y disgyblion hŷn. Mae’r gwaith sydd wedi ei gyflawni hyd yma o ansawdd da, er ei bod yn rhy gynnar i fesur effaith y prosiect ar gyrhaeddiad y disgyblion.

Mae’r pennaeth a’r corff llywodraethol yn rheoli adnoddau ariannol yn ofalus iawn ac yn sicrhau bod gwariant yn mynd i’r afael â blaenoriaethau cynlluniau datblygu’r ysgol. Mae’r grant amddifadedd yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol i godi safonau llythrennedd a sicrhau lles grwpiau penodol o ddisgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692193 - Ysgol Gynradd Penygroes**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 184 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 21 | 28 | 28 | 24 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 90.5 | 89.3 | 96.4 | 95.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 28 | 28 | 24 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.5 | 89.3 | 96.4 | 95.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 52.4 | 39.3 | 39.3 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 28 | 28 | 24 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 96.4 | 100.0 | 95.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 57.1 | 39.3 | 39.3 | 41.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 28 | 28 | 24 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 96.4 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 81.0 | 75.0 | 85.7 | 79.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692193 - Ysgol Gynradd Penygroes**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 184 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.3 |
| Grŵp PYD | 2 (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 28 | 19 | 29 | 17 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 89.3 | 84.2 | 86.2 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 19 | 29 | 17 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.9 | 89.5 | 86.2 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 64.3 | 47.4 | 44.8 | 52.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 19 | 29 | 17 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 89.5 | 86.2 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 53.6 | 47.4 | 41.4 | 52.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 19 | 29 | 17 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 89.3 | 89.5 | 93.1 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 57.1 | 31.6 | 44.8 | 41.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 3 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 19 | 29 | 17 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.9 | 89.5 | 96.6 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 53.6 | 31.6 | 48.3 | 47.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 100 | 100<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 100 | 100<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 100 | 100<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 100 | 100<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 100 | 97<br>97%<br>96% | 3<br>3%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 100 | 100<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 100 | 100<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 100 | 99<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 100 | 96<br>96%<br>91% | 4<br>4%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 100 | 99<br>99%<br>95% | 1<br>1%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 100 | 90<br>90%<br>77% | 10<br>10%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 100 | 92<br>92%<br>84% | 8<br>8%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 55 | 33<br>60% | 20<br>36% | 2<br>4% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 55 | 42<br>76% | 13<br>24% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 56 | 42<br>75% | 12<br>21% | 2<br>4% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 56 | 35<br>62% | 17<br>30% | 2<br>4% | 2<br>4% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 53 | 22<br>42% | 27<br>51% | 3<br>6% | 1<br>2% | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 53 | 29<br>55% | 21<br>40% | 1<br>2% | 2<br>4% | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 56 | 35<br>62% | 18<br>32% | 1<br>2% | 2<br>4% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 54 | 27<br>50% | 23<br>43% | 2<br>4% | 2<br>4% | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 54 | 28<br>52% | 21<br>39% | 2<br>4% | 3<br>6% | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 54 | 25<br>46% | 29<br>54% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 60% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 54 | 37<br>69% | 17<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 48 | 29<br>60% | 15<br>31% | 2<br>4% | 2<br>4% | 5 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 54 | 25 | 20 | 5 | 4 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 46% | 37% | 9% | 7% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 56 | 35 | 12 | 4 | 5 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 21% | 7% | 9% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 50 | 22 | 22 | 2 | 4 | 6 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 44% | 4% | 8% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 53 | 34 | 18 | 0 | 1 | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 64% | 34% | 0% | 2% | | |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 40 | 23 | 14 | 2 | 1 | 15 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 57% | 35% | 5% | 2% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 56 | 30 | 25 | 1 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 45% | 2% | 0% | | |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 55 | 35 | 15 | 2 | 3 | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 64% | 27% | 4% | 5% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Eleri Hurley | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Marc Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Janet Harris | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.